TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 4 - Cymdeithas sy'n newid
## Pecyn addysgu enghreifftiol
## Modern Cynnar

Addysgu o 2026

Dyfarnu o 2028



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

# TGAU Hanes Uned 4: Cymdeithas sy'n newid

**Enghraifft:** Sut newidiodd y Tuduriaid Ynysoedd Prydain

Pynciau hanesyddol a ddewiswyd fesul thema

| | |
|---|---|
| **Cymdeithas ac economi** | Byd Llong Casnewydd o'r Oesoedd Canol (bywyd yng Nghymru a Lloegr ar ddiwedd yr Oesoedd Canol) |
| **Gwrthdaro a heddwch** | Rhyfeloedd y Rhosynnod, 1455–1485 |
| **Cysylltiadau rhyngwladol** | Torri oddi wrth Rufain |
| **Crefydd** | Heresi, 1532–1558 |
| **Gwleidyddiaeth** | Y Deddfau Uno |
| **Cydraddoldeb ac anghydraddoldeb** | Tlodi a Chrwydraeth |
| **Rhyw, rhywioldeb a rhywedd** | Mari I: Brenhines gyntaf Lloegr |
| **Ethnigrwydd** | Profiadau pobl mewn grwpiau ethnig leiafrifol yn yr 16eg ganrif yng Nghymru a Lloegr |
| **Diwylliant** | Adloniant y Tuduriaid |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Cymdeithas ac economi
**Pwnc** Byd Llong Casnewydd o'r Oesoedd Canol (bywyd yng Nghymru a Lloegr ar ddiwedd yr Oesoedd Canol)

**Eitem 1** Disgrifiad o bwysigrwydd Llong Casnewydd i gysylltiadau masnachu rhwng De Cymru, Bryste a'r Penrhyn Iberaidd yn y 1450au a'r 1560au, a welir yn y tywyslyfr i ymwelwyr *Newport* Medieval Ship. *A Guide to the Discovery and Preservation of a Fifteenth-Century Merchant Ship* (2017)

Saif y bymthegfed ganrif ar groesffordd rhwng cyfnodau hanesyddol. Roedd llawer o nodweddion nodedig bywyd yn yr Oesoedd Canol yn amlwg o hyd: urddau a chynghreiriau masnach, cestyll a llysoedd brenhinol. Ond roedd hefyd yn gyfnod y Dadeni cynnar: cyfnod o ddatblygiadau cyflym. Prin oedd yr agweddau ar fywyd na chawsant eu newid. Cafodd yr economi, yn benodol, ei drawsnewid yn rhannol gan y datblygiadau yn y grefft o adeiladu llongau. Mae llong Casnewydd yn gynnyrch y broses o ddatblygu llongau mwy, cyflymach a oedd yn fwy addas i'r môr a hwylusodd fwy o fasnach ryngwladol. Un o'r prif lwybrau oedd rhwng Prydain ac Iberia, lle'r oedd llong Casnewydd yn hwylio. Mae'n ymddangos mai gwin a haearn oedd y prif nwyddau a gludwyd, ond ceir cyfeiriadau hefyd at symiau mawr o bren yn cael ei allforio i Brydain. Aeth rhai nwyddau i'r ddau gyfeiriad yn dibynnu ar yr amgylchiadau: gwenith (i leddfu'r prinder) a gwlân (i ddiwallu anghenion gwahanol nyddwyr, lliwyddion a gwehyddion). Bryste oedd prif dderbynnydd masnach Iberaidd â Phrydain. Er bod llongwyr o borthladdoedd eraill ym Mhrydain yn cadw at lwybrau cyfarwydd yn bennaf, roedd gwŷr Bryste yn fwy parod i archwilio cyfleoedd newydd. Roedd y daith yn hir ac anodd: gallai taith o Fryste i Lundain gymryd tair wythnos a chafodd ei chymhlethu gan ddyfroedd dyrys Bae Vizcaya. Ehangodd y fasnach o arfordir Gwlad y Basg i Fryste yn fawr yn ystod ail hanner y bymthegfed ganrif ac ehangodd i borthladdoedd mor bell i'r gogledd â Chaer. Felly mae'n bosibl bod y llong yn olygfa gyffredin ym Môr Hafren ac ar Afon Wysg o bosibl. Ar ddiwedd ei hoes daeth i Gasnewydd i gael ei hadnewyddu, ei hailosod neu ei thynnu'n ddarnau, ac ni adawodd fyth.

**Thema** Cymdeithas ac economi
**Pwnc** Byd Llong Casnewydd o'r Oesoedd Canol (bywyd yng Nghymru a Lloegr ar ddiwedd yr Oesoedd Canol)


**Eitem 2** Ffotograff o Neuadd Fawr Llys Tre-tŵr (dechrau'r ugeinfed ganrif). Mae'r neuadd wedi'i hadnewyddu a'i gosod i adlewyrchu sut gallai fod wedi edrych yn yr 1460au yn ystod cyfnod ei pherchennog, Syr Roger Vaughan.



© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Cymdeithas ac economi
**Pwnc** Byd Llong Casnewydd o'r Oesoedd Canol (bywyd yng Nghymru a Lloegr ar ddiwedd yr Oesoedd Canol)

**Eitem 3** Map o Boarstall yr Oesoedd Canol yn 1444. Pentref bach o'r Oesoedd Canol yn Swydd Buckingham oedd Boarstall. Ar y map gellir gweld yr eglwys, tai y werin, caeau (gyda stribedi), coetir, demaen a'r stryd fawr.



**Thema** Cymdeithas ac economi
**Pwnc** Byd Llong Casnewydd o'r Oesoedd Canol (bywyd yng Nghymru a Lloegr ar ddiwedd yr Oesoedd Canol)

**Eitem 4** Syr Thomas More, cyfreithiwr, dyneiddiwr a gwladweinydd, yn disgrifio effaith y broses o gau tir comin yn ei lyfr *Utopia* (1516)

Mae'r tirfeddianwyr yn cau'r holl dir yn dir pori [ar gyfer defaid] ... rhaid i'r werin ymadael. ... A phan fyddant wedi crwydro ... beth arall y gallant ei wneud heblaw dwyn neu fynd o gwmpas yn cardota.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Gwrthdaro a Heddwch
**Pwnc** Rhyfeloedd y Rhosynnod, 1455–1485

**Eitem 5** John Whethamstede, Abaty St Albans, yn disgrifio cymeriad Harri VI yn ei gronicl *Whethamstede*’s Register (1465)

Cafodd y Brenin ei daro gan glefyd ac anhwylder mor wael yn 1453 nes iddo golli arno'i hun a cholli ei gof am gyfnod, a chollodd gymaint o reolaeth ar ei holl gorff fel na allai gerdded, na dal ei ben i fyny na symud yn hawdd o'r man lle eisteddai. Epil hurt ei fam oedd Harri VI, nid ei dad: mab nad oedd yn meddu ar gryfder y tad, nad oedd yn meddu ar grefft rhyfel, brenin duwiol ac addfwyn, ond nad oedd yn ddeallus ym materion y wladwriaeth.

**Thema** Gwrthdaro a Heddwch
**Pwnc** Rhyfeloedd y Rhosynnod, 1455–1485

**Eitem 6** Awdur dienw yn disgrifio cyd-destun gwarchae Harlech (1461 i 1468) yn yr adran *‘Surrender of Harlech Castle, end of Britain’s longest siege’*, ar y wefan thewarsoftheroses.co.uk (2022)

Ar ôl gorchfygu'r fyddin Lancastraidd ym Mrwydr Towton, yr Iorciaid oedd yn drech. Er hynny, nid oedd ganddynt reolaeth lwyr. Roedd carfan fawr yn gwrthwynebu yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, lle gwelwyd y brodyr Neville yn cymryd rhan mewn brwydrau a gwarchaeau am sawl blwyddyn nes i'r rhanbarth gael ei ddiogelu. Roedd gwrthwynebiad yng Nghymru hefyd.

Roedd llawer o Gymru yn deyrngar i'w chysylltiadau â Jasper Tudur, a oedd yn ewythr hynod ffyddlon i'r Brenin Harri VI. Rhoddwyd Iarllaeth Penfro yn Ne Cymru i William Herbert a chafodd y dasg o hela gwrthwynebwyr allan drwy Gymru fel prif swyddog Edward yn y dywysogaeth.

Ildiodd y rhan fwyaf o'r cestyll yn y de yn gyflym. Cafodd byddin Jasper Tudur ei threchu yn Twt Hil, [a] hwyliodd Tudur i alltudiaeth yn Iwerddon, gan adael garsiynau yn ei gestyll gogleddol. Ildiodd y cestyll fesul un. Gwrthododd Harlech.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Gwrthdaro a Heddwch
**Pwnc** Rhyfeloedd y Rhosynnod, 1455–1485

**Eitem 7** Awdur dienw yn amlinellu ei achos dros ddiflaniad Edward V a'i frawd y Tywysog Richard o Dŵr Llundain yn yr adran ‘Crimes alleged by Shakespeare’ ar wefan Cymdeithas Richard III (2022)

Er bod sawl un yn credu bod Richard III yn euog o lofruddio ei ddau nai, nid oes unrhyw dystiolaeth bod unrhyw lofruddiaethau wedi digwydd o gwbl. Gwelwyd y bechgyn yn nhiroedd Tŵr Llundain tan ddiwedd haf 1483. Ar ôl hynny, ni cheir unrhyw gofnodion iddynt gael eu gweld wedyn. Newidiodd eu diflaniad yn gyflym yn llofruddiaeth ar y sail na allai Richard oddef bygythiad posibl y bechgyn i'w orsedd. Mae'r esboniad hwn yn anwybyddu tawelwch Richard ar fater eu ffawd. Pe byddai'n eu lladd i ddileu unrhyw berygl posibl ganddynt, roedd angen i bawb wybod eu bod wedi marw ac na ellid eu defnyddio yn ei erbyn. Drwy aros yn dawel, methodd â dileu'r bygythiad. Roedd hyn yn rhywbeth y byddai Harri VII yn ei ddarganfod yn fuan pan gafodd Brenin Edward newydd ei goroni yn Nulyn a chasglu byddin i frwydro dros ei goron yn Stoke Field; ac yn ddiweddarach, yn y 1490au, byddai heriwr ifanc arall yn dod i'r amlwg yn honni mai ef oedd y Tywysog ifanc, Richard o Efrog, gan ennyn cefnogaeth gref. …

Mae'n amhosibl nodi na wnaeth Richard orchymyn y dylid llofruddio ei ddau nai. Mae yr un mor amhosibl dweud iddo wneud hynny. Ym marn yr awdur hwn, mae'n annhebygol mai gweddillion y Tywysogion sydd mewn wrn yn Abaty Westminster. Yn absenoldeb tystiolaeth newydd y naill ffordd neu'r llall, mae'n ddirgelwch o hyd ac yn achos o ddiflaniad yn hytrach na llofruddiaeth.

**Thema** Gwrthdaro a Heddwch
**Pwnc** Rhyfeloedd y Rhosynnod, 1455–1485

**Eitem 8** Disgrifiad o'r frwydr pan orchfygodd Harri Tudur Richard III yn y gerdd o'r un cyfnod *The* Ballad of Bosworth Field (cyn 1495)

Yna gwnaethant symud i fynydd uchel,
A gyda llais uchel galwasant ‘Brenin Harri!’;
Rhoddwyd y goron aur,
I Arglwydd Stanley.
Gyda hyn, rhoddwyd i'r Brenin Harri,
Y goron a roddwyd iddo.
A dywedodd, ‘Credaf mai ti yw'r mwyaf teilwng
I wisgo'r goron a bod yn Frenin.’

**Thema** Cysylltiadau Rhyngwladol
**Pwnc** Torri oddi wrth Rufain

**Eitem 9** Proclomasiwn gan y Pab yn rhoi'r teitl *Fidei defensor* [Amddiffynnwr y Ffydd] i Harri VIII (11 Hydref 1521)

Wedi pwyso a mesur a rhoi ystyriaeth deg i'ch rhinweddau personol, ni allem fod wedi meddwl am enw mwy addas, nac un mwy haeddiannol i'ch Mawrhydi na'r teitl gwych hwn, y byddwch, pan fyddwch yn ei glywed neu'n ei ddarllen, yn cofio am eich rhinweddau uchaf.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Cysylltiadau Rhyngwladol
**Pwnc** Torri oddi wrth Rufain

**Eitem 10** Alison Weir, awdur a hanesydd cyhoeddus, yn ysgrifennu yn ei llyfr hanes poblogaidd *The Lady in the Tower: The Fall of Anne Boleyn* (2010)

Roedd angen Harri VIII am olynydd gwrywaidd wedi mynd yn fater o frys cynyddol yn y saith mlynedd ar hugain a oedd wedi mynd heibio ers 1509, pan briododd Katherine [o Aragon]. O'i chwe beichiogrwydd, dim ond un plentyn a oroesodd, sef Mari. Erbyn 1526, roedd y Brenin wedi syrthio dros ei ben a'i glustiau mewn cariad â morwyn Katherine, Anne Boleyn, ac ar ôl chwe blynedd o aros yn ofer i'r Pab gadarnhau y gellid dirymu ei briodas fel yr oedd yn ei ddymuno mor daer, er mwyn gallu priodi Anne, aeth yn erbyn yr Eglwys Gatholig, torrodd y cysylltiad rhwng Eglwys Loegr a Rhufain a gorchmynnodd i Thomas Cranmer, yr oedd newydd ei benodi'n Archesgob Caergaint, i ddatgan bod ei uniad â Katherine rinweddol yn annilys. Gwnaeth hyn oll er mwyn priodi Anne a chenhedlu mab â hi.

**Thema** Cysylltiadau Rhyngwladol
**Pwnc** Torri oddi wrth Rufain

**Eitem 11** O Ddeddf Goruchafiaeth 1534

Ei Fawrhydi y brenin, yn gwbl gyfiawn a haeddiannol, yw goruchaf bennaeth Eglwys Loegr, a chaiff ei gydnabod gan glerigwyr ei deyrnas yn eu cynulliadau. Er hyn, er mwyn cadarnhau hyn ac er mwyn cynyddu rhinwedd yng nghrefydd Crist yn ei deyrnas yn Lloegr, ac er mwyn atal a dileu pob gwall, caiff ei ddatgan, drwy awdurdod y Senedd bresennol hon, bod y brenin, ein goruchaf arglwydd, ei ddisgynyddion a'i olynwyr, brenhinoedd ei deyrnas, yn cael eu hystyried, eu derbyn a'u tybio i fod yr unig oruchaf bennaeth ar y ddaear o Eglwys Loegr.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Cysylltiadau Rhyngwladol
**Pwnc** Torri oddi wrth Rufain

**Eitem 12** Ken Petts, artist a darlunydd, yn portreadu creiriau ac eiddo gwerthfawr arall a gymerwyd gan weithwyr y llywodraeth yn ystod y broses o ddiddymu'r mynachlogydd, 1536-1541, yn y cylchgrawn addysgol i blant *Look* and Learn 1974). Mae'r ddelwedd hon o olygfa a ddigwyddodd yn Rhydychen lle ymosododd Harri ar yr eglwysi ond gwrthododd ymosod ar y Brifysgol.



**Neu**

**Eitem 12** Fred Zinnemann, Americanwr-Awstralaidd a oedd yn gyfarwyddwr ffilmiau yn portreadu anudoniaeth Syr Richard Rich yn ystod achos llys Syr Thomas More yn ei ffilm *A Man for* all Seasons (1966)

Er enghraifft, A Man for All Seasons (1966): Rich's Perjury - YouTube

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Crefydd
**Pwnc** Heresi, 1532–1558

**Eitem 13** Print â'r teitl *A broadside on the martyrdom of English Carthusian monks in 1535 during the reign of Henry VIII* (1564). ‘Broadside’ yw ymosodiad a ysgrifennwyd neu a bortreadwyd yn gryf ar rywun neu rywbeth.




© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Crefydd
**Pwnc** Heresi, 1532–1558

**Eitem 14** Ffotograff o'r 21ain ganrif o'r plac coffa i Rawlins White, a oedd wedi'i arddangos yn hen Gapel Bethania, a aeth yn rhan o hen siop adrannol Howells yng Nghaerdydd. Codwyd y plac ar 3 Ebrill 1907 ac mae ei ysgrifiad yn nodi:

Byddin fawrfrydig o ferthyron. Canwn glod i chi.
Ger y fan hon dioddefodd Rawlins White, pysgotwr o'r dref hon, er mwyn y gwir – 30 Mawrth 1555.
Byddwn ni, trwy ras Duw, yn goleuo cannwyll o'r fath yn Lloegr, na fydd fyth yn cael ei diffodd.
Codwyd gan ddau brotestant o'r dref hon.




**Neu**

**Eitem 14** Y cyfarwyddwr ffilmiau Indiaidd, Shekhar Kapur yn portreadu llosgiadau Mari yn yr agoriad i'w ffilm *Elizabeth* (1998)

Er enghraifft, **Elizabeth: Three Protestant Martyrs - YouTube**

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Crefydd
**Pwnc** Heresi 1532–1558

**Eitem 15** Cyfrif Protestannaidd o farwolaethau Hugh Latimer a Nicholas Ridley, dau Brotestant amlwg a argraffwyd yn *Foxe*'s Book of Martyrs, 1563. Cafodd y gwaith hwn ei ddiweddaru a'i ailargraffu yn 1583.

Yna cymerodd y gof gadwyn o haearn, a'i rhoi o amgylch canol Dr Ridley a Meistr Latimer. Yna daeth brawd yng nghyfraith Dr Ridley â phowdwr gwn iddo mewn bag, a byddai wedi ei glymu o amgylch ei wddf. Gofynnodd Meistr Ridley beth ydoedd. Dywedodd ei frawd, "Powdwr gwn." "Felly", dywedodd, "Rwy'n ystyried iddo gael ei anfon gan Dduw; felly byddaf yn ei ddefnyddio – ac a oes gennyt beth ar gyfer fy mrawd?" Felly aeth ei frawd yng nghyfraith â rhywfaint i Feistr Latimer. ...

Yna daeth â ffagod [pentwr o frigau], wedi'u cynnau â thân, a'u gosod o amgylch traed Dr Ridley. Dywedodd Meistr Latimer hyn wrtho: "Rhowch gysur, Feistr Ridley, a chwaraewch y dyn. Byddwn ni heddiw, yn goleuo cannwyll o'r fath yn Lloegr, na fydd, rwy'n siŵr, fyth yn cael ei diffodd." Ac felly rhoddwyd y tân iddynt, a phan welodd Dr Ridley y fflamau yn nesu ato, dywedodd, "Rhoddaf fy ysbryd yn Dy law, O Arglwydd." Roedd Meistr Latimer yn llefain mor daer ar yr ochr arall, "O Dad yn y nefoedd, derbyn fy enaid!"

Derbyniodd Meistr Latimer y fflam fel pe byddai'n ei chofleidio. Ar ôl iddo anwesu ei wyneb â'i ddwylo ac, fel petai, eu trochi ychydig yn y tân, bu farw'n fuan wedyn (felly yr ymddangosodd) heb lawer o boen os o gwbl.

**Thema** Crefydd
**Pwnc** Heresi 1532–1558

**Eitem 16** Lauren Good, crëwr cynnwys digidol, yn ysgrifennu yn yr erthygl *A perilous game of hide and seek: the history of priest holes and hunters* ar wefan History Extra (2024)

What Is The History Behind Priest Holes? | HistoryExtra (o *'When it was Elizabeth I's turn to rule…'* at *'Those who were found met a gruesome end.'*)

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Gwleidyddiaeth
**Pwnc** Y Deddfau Uno

**Eitem 17** Y disgrifiad ar gyfer *An* Act for Laws and Justice to be ministered in Wales in like Form as it is in this Realm o 1535 sydd wedi'i ddigideiddio, ar wefan Archifau Seneddol y DU (dechrau'r 21ain ganrif)

Roedd y Ddeddf, a alwyd hefyd yn Ddeddf Uno â Chymru, Uno Cymru, a Statud Cymru, hefyd yn ganlyniad i gyfres o ddeddfau a basiwyd yn Senedd Lloegr rhwng 1536 a 1543. Roedd Cymru wedi bod o dan reolaeth Brenhinoedd Lloegr ers teyrnasiad Edward I (1239-1307) ac wedi cael ei rheoli fel tywysogaeth, o dan yr etifedd i orsedd Lloegr (Tywysog Cymru). Yn dilyn buddugoliaeth Harri VII dros Richard III yn Bosworth (Rhyfel y Rhosynnod), gwnaed cysylltiadau cryfach rhwng Cymru a Lloegr gan fod llawer o ddilynwyr Harri yn Gymry. Dechreuodd mab Harri VII, Harri VIII, bryderu am deyrngarwch y Cymry yn dilyn Diwygiad Lloegr a'r rhaniad oddi wrth yr Eglwys Gatholig Rufeinig. Er mwyn amddiffyn ei ffiniau rhag ymosodiadau Catholig a gefnogwyd dramor, ceisiodd Harri VIII ddod â Chymru yn dynnach o dan reolaeth Loegr. O ganlyniad, sefydlwyd y Ddeddf Uno drwy gyfres o gyfreithiau a basiwyd rhwng 1536 a 1543. Drwy uno, cafodd Gymru gynrychiolaeth seneddol yn San Steffan (cartref Senedd Lloegr); fodd bynnag, roedd yn golygu bod cyfraith Lloegr a'r iaith Saesneg yn cael eu gweithredu ar y Cymry.

**Thema** Gwleidyddiaeth
**Pwnc** Y Deddfau Uno

**Eitem 18** Darnau o *An Act for Laws and Justice to be ministered in Wales in like Form as it is in this Realm* (1535)

I. (5) Felly gan ddangos yr un Brwdfrydedd, Cariad a Ffafr ag a ddangosodd tuag at Ddeiliaid Tiriogaeth Cymru, gan geisio a bwriadu eu lleihau i Orchymyn, Hysbysiad a Gwybodaeth berffaith ei Gyfreithiau yn y Deyrnas hon, ordeiniodd, gweithredodd a sefydlodd Ei Uchelder y byddai Gwlad neu Diriogaeth Cymru yn cael ei chynnwys gyda Theyrnas Lloegr, ac yn cael ei hymgorffori, ei huno a'i hatodi iddi am byth o'r adeg hon.

I. (6) ac y byddai pob Person a aned yn Nhywysogaeth, Gwlad neu Diriogaeth Cymru yn mwynhau ac yn etifeddu'r un Rhyddidau, Hawliau, Breintiau a Chyfreithiau yn ei Deyrnas, a Thiriogaethau eraill y Brenin, â Deiliaid eraill y Brenin a aned ynddynt yn eu mwynhau ac yn eu hetifeddu ...

XX. (3) A hefyd o hyn allan ni fydd unrhyw Berson neu Bersonau sy’n defnyddio’r Iaith Gymraeg ar Lafar neu’n Ysgrifenedig yn cael na mwynhau unrhyw fath o Swydd o fewn y Deyrnas hon sef Lloegr, Cymru, neu o fewn unrhyw un arall o Diriogaethau’r Brenin, dan Gosb o fforffedu'r un Swyddi neu Ffioedd, oni bai ei fod ef neu eu bod nhw yn defnyddio ac yn ymarfer yr iaith Saesneg ar Lafar neu’n Ysgrifenedig.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Gwleidyddiaeth
**Pwnc** Y Deddfau Uno

**Eitem 19** Erthygl â'r teitl *'Welsh had more legal status after Acts of Union than thought, lost National Library treasure trove reveals'* o adran diwylliant gwefan Nation Cymru (2022). Mae Nation Cymru yn disgrifio ei hun fel *'a news service by the people of Wales, for the people of Wales'.*

Roedd gan yr iaith Gymraeg fwy o statws cyfreithiol de facto ar ôl y Deddfau Uno na'r hyn a dybiwyd y flaenorol, fel y datgelwyd mewn trysorau o ddogfennau a oedd ar goll yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Yn ei lyfr *Ewyllysiau Cymraeg: Pennod Goll yn Hanes yr Iaith* dywed yr hanesydd Gerald Morgan ei fod wedi synnu faint o'r dogfennau cyfreithiol coll a oedd yn cuddio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru oedd yn Gymraeg. Cafodd y dogfennau profiant eu canfod yn yr 1990au, ac yn eu mysg roedd ewyllysiau, rhestrau eiddo a llythyrau. Ond er iddynt gael eu gwahardd fel iaith gyfreithiol gan gyfreithiau 1535/42, ysgrifennwyd llawer o'r ewyllysiau yn Gymraeg. Cafodd nifer mawr o'r ewyllysiau eu hadrodd ar lafar gan deulu neu gymdogion a oedd gyda'r bobl sâl a oedd ar eu gwely angau, ac ni allai llawer ohonynt siarad Saesneg. Awgrymodd Gerald Morgan fod yr Eglwys yng Nghymru wedi sylweddoli, beth bynnag yr oedd y gyfraith yn ei nodi, mai'r gwirionedd oedd y byddai'n rhaid cydnabod y dogfennau Cymraeg hyn fel dogfennau cyfreithiol.

**Thema** Gwleidyddiaeth
**Pwnc** Y Deddfau Uno

**Eitem 20** Y cyhuddiad a anelwyd at yr offeiriad o Sir Gaernarfon, Syr William ap Llywelyn, a ddaliwyd yn fuan ar ôl gwneud ei ddatganiad honedig ar 4 Gorffennaf 1533.

Honnodd ei fod am gael y brenin ar fynydd yng ngogledd Cymru sef "Withvay" [yr Wyddfa], a alwyd hefyd yn "Snoyden [Snowdon] Hill", gan ddweud y byddai'n trochi'r brenin o amgylch ei glustiau nes byddai ei ben yn ddigon meddal.

**Thema** Cydraddoldeb ac Anghydraddoldeb
**Pwnc** Tlodi a Chrwydraeth

**Eitem 21** John F Aylett, awdur, yn ysgrifennu yn ei lyfr i blant ysgol rhwng 11 a 14 oed *In* Search of History 1485–1714 (1984)

Roedd rhai crwydriaid yn rhy sâl neu'n rhy hen i weithio. Roedd eraill yn ffit i weithio ond yn gweld bod cardota a dwyn yn ffordd haws o lawer o ennill bywoliaeth. Dyma oedd rhai o broblemau mwyaf y llywodraeth. Roedd cynifer ohonynt [crwydriaid neu gardotwyr holliach] fel bod enwau arbennig ar gyfer crwydriaid gwahanol a oedd yn gwneud eu bywoliaeth mewn ffyrdd gwahanol. Byddai'r *angler* yn treulio ei ddiwrnodau yn cardota o amgylch tref, gan gario ffon bren hir. Byddai'n cadw golwg am ddillad neu eitemau gwerthfawr. Dros nos, byddai'n rhoi bachyn ar ei ffon ac yn dwyn dillad oddi ar leiniau dillad. Byddai'r *clapperdudgeon* yn clymu arsenig i'w groen i wneud iddo waedu. Yna byddai'n clymu clytiau budron i'r clwyf, gan sicrhau bod pobl yn gallu gweld y briwiau gwaedlyd. Y gwaethaf y byddai'n edrych, y mwyaf o arian y byddai'n gobeithio ei gael. Byddai'r *counterfeit crank* hefyd yn gwisgo dillad hen a budur ond byddai'n esgus bod ganddo epilepsi. Byddai'n sugno sebon i wneud iddo lafoerio a byddai'n esgus cael ffit pan fyddai rhywun yn dod yn agos ato. Byddai *Tom O'Bedlam* yn cerdded o amgylch yn hanner noeth ac yn gwneud synau rhyfedd. Weithiau byddai'n cario ffon ag ychydig o gig moch arni, fel y byddai pobl yn meddwl ei fod o'i gof.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Cydraddoldeb ac Anghydraddoldeb
**Pwnc** Tlodi a Chrwydraeth

**Eitem 22** Cofnod llys o Sesiynau Chwarter Sir Gaernarfon (1557)

Gwnaeth Margaret ferch Ieuan ap David ap Madog o Ffestiniog yn sir Feirionnydd, merch ddi-briod, yng Nghlynnog, ddwyn gwerth 1c o gaws a gwerth 2c o arian gan Lewis ap John ap William. Dyfarnodd yr Ynadon y dylai gael ei chwipio a'i hoelio gerfydd ei chlust ym marchnad Caernarfon.

**Thema** Cydraddoldeb ac anghydraddoldeb
**Pwnc** Tlodi a Chrwydraeth

**Eitem 23** Adran 3 o *An Act for punishment of Rogues, Vagabonds, and sturdie Beggers* (1597)

A gorchmynnwyd gan yr awdurdod a nodwyd, y byddai pob person y nodir yn y Ddeddf hon ei fod yn Ddihiryn, yn Grwydryn neu'n Gardotyn Holliach, unrhyw bryd ar ôl gŵyl nesaf y Pasg, yn cael ei weld yn cardota, yn crwydro neu'n camymddwyn mewn unrhyw ran o'r Deyrnas hon, neu yn Nhiriogaeth Cymru, o gael ei ddal, yn cael ei ddinoethi o'i ganol i fyny, a'i chwipio'n agored nes i'w gorff waedu: ac yn cael ei anfon yn ôl i'r Plwyf lle cafodd ei eni.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Cydraddoldeb ac Anghydraddoldeb
**Pwnc** Tlodi a Chrwydraeth

**Eitem 24** Awdur dienw yn ysgrifennu yn yr erthygl *'Elizabethan Poor Law 1601: the First National Welfare System'* ar flog Odeboyz (2019). Mae'r blog yn gasgliad o erthyglau ar faterion gwleidyddol, hanesyddol a diwylliannol.

**Cefndir**
Chwalwyd cymdeithas yn Lloegr gan Ddiwygiad y 1530au, a ddinistriodd ganrifoedd o ddarpariaeth i'r tlawd gan yr Eglwys Gatholig Rufeinig. Roedd yr hyn a arferai fod yn ddyletswydd grefyddol bellach yn opsiwn. Dangosodd trigain mlynedd o gymorth digyfeiriad gyfyngiadau dyngarwch ar gyfer y broblem gymdeithasol hon. Cododd Cyfraith y Tlodion Elisabeth dollau ledled yr holl wlad a hon oedd y system les *genedlaethol* seciwlar gyntaf.

**Cwmpas y ddeddfwriaeth**
Roedd y gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i bob plwyf ethol dau Oruchwyliwr y Tlodion bob Pasg: ni fyddai'r rhai a etholwyd yn cael eu talu ac yn aml roeddent yn benodedigion amharod a oedd yn gweithredu dan oruchwyliaeth yr Ynadon Heddwch. Eu dyletswyddau oedd:

1) cyfradd orfodol y tlodion i gael ei chodi ar bob plwyf
2) creu 'Goruchwylwyr'
3) 'rhoi'r tlodion i weithio'
4) casglu cyfradd tlodion gan berchnogion eiddo

**Rôl y plwyf**
Defnyddiwyd y plwyf fel uned weinyddol ac nid fel oedd yr achos cyn y Diwygio pan oedd yr Eglwys yn cynllunio'r lles. Roedd lles yn seciwlar ac nid oedd y tlodion yn *Blant Duw* mwyach.
Drwy sefydlu cymorth i'r tlodion yn y plwyf, y dybiaeth oedd bod y rhai a oedd yn rhoi'r cymorth yn adnabod y tlodion yn bersonol. ... Nid oeddent am i'r tlodion fynd yn ddibynnol ac yn faich ar drethdalwyr y plwyf. Un o effeithiau anffodus y wybodaeth bersonol oedd bod unrhyw un nad oeddent yn ei adnabod yn cael ei drin yn llawn amheuaeth.

**Thema** Rhyw, Rhywioldeb a Rhywedd
**Pwnc** Mari I: Brenhines gyntaf Lloegr

**Eitem 25** Menry Machyn, Masnachwr-Deiliwr o Lundain, yn ysgrifennu yn ei ddyddiadur (Gorffennaf 1553)

Ar 19 Gorffennaf, cyhoeddwyd Mari yn Frenhines Lloegr, Ffrainc ac Iwerddon ac ar bob tiriogaeth fel chwaer y diweddar Frenin Edward VI a merch Brenin Harri VIII.

Rhwng pump a chwech o'r gloch y nos, yn y cyhoeddi, roedd trwmpedwyr a chyhoeddwyr ac Iarll Arundel, Iarll Amwythig, Iarll Penfro, yr Arglwydd Drysorydd a sawl uchelwr arall; gwnaed hyn ger y groes yn Chepe [ardal farchnad brysur o Lundain], ac oddi yno yr aethant .. ac roedd *Te Deum Laudamus*, gyda chanu a'r organau yn chwarae.

Taflwyd llu o gapiau i fyny yn y cyhoeddi. ... Cafodd llu o goelcerthi eu tanio ac roedd y lle yn seinio â bloeddiadau a bonllefau'r bobl a chanu clychau. Hefyd, roedd pobl yn gwledda ac yn canu yn y strydoedd mewn llawenydd.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Rhyw, Rhywioldeb a Rhywedd
**Pwnc** Mari I: Brenhines gyntaf Lloegr

**Eitem 26** Cyfrif o ddienyddiad y Foneddiges Jane Grey a'i gŵr Guildford Dudley yn yr erthygl *'Lady Jane Grey: The Nine Day Queen'* ar wefan Historic Royal Palaces (2019)

Roedd y Frenhines yn amhoblogaidd iawn oherwydd ei Chatholigiaeth lem a'i chynlluniau i briodi Philip II o Sbaen yr oedd pobl yn ei gasáu. Dilynodd cyfres o wrthryfeloedd, gan gynnwys gwrthryfel Wyatt y Protestant yn 1554.

Nid oedd y cynllwynwyr yn bwriadu ailgyflwyno Jane ar yr orsedd, ond roedd tad Jane yn rhan o'r cynllwyn a rhoddwyd Jane a'i gŵr mewn sefyllfa anodd. Daeth bodolaeth Jane yn fwy o fygythiad i Mari, na allai fforddio gadael iddi fyw. Cynigiodd Mari arbed eu bywydau pe byddent yn troi i'r ffydd Gatholig. Roedd Jane bob amser yn dduwiol, ac erbyn hynny roedd yn Brotestant pybyr. Gwrthododd y ddau. Yn gyndyn, derbyniodd Brenhines Mari I gyngor y Cyfrin Gyngor a gorchmynnodd i Jane a Guildford gael eu dienyddio.

Fel menyw o statws uchel, rhoddwyd dienyddiad preifat i Jane yn nhir y Tŵr awr ar ôl ei gŵr, ar 12 Chwefror 1554. Roedd y fenyw ifanc, wedi'i gwisgo mewn du, yn ddigynnwrf wrth iddi gerdded at y sgaffald ar Lawnt y Tŵr. Ar y sgaffald, darllenodd Jane Salm 51 yn ei llyfr gweddïau. Yna rhoddodd ei menig a'i hances i un o'i morynion a'r llyfr gweddïau i Raglaw'r Tŵr. Tynnodd ei gŵn, ei phenwisg a'i choler a'u rhoi i'w morynion.

Dywedodd Jane wrth y dienyddwr *'dispatch her quickly'* a chlymodd fwgwd o amgylch ei llygaid. Ond wrth iddi estyn yn ddall am y bloc, cynhyrfodd a galw “Beth ddylwn i ei wneud? Ble mae e?” Camodd rhywun i mewn i helpu, a rhoddodd Jane ei phen ar y bloc. Wrth iddi yngan ei geiriau olaf: ‘Arglwydd, rhoddaf fy ysbryd yn dy ddwylo’, disgynnodd y fwyell. Dim ond 17 oed oedd Jane.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Rhyw, Rhywioldeb a Rhywedd
**Pwnc** Mari I: Brenhines gyntaf Lloegr

**Eitem 27** Copi cyfoes o'r paentiad panel a briodolwyd i'r artist o Fflandrys Lucas de Heere yn Abaty Woburn (tua 1558). Mae'n portreadu Mari I a'i gŵr, Philip II o Sbaen.



**Thema** Rhyw, Rhywioldeb a Rhywedd
**Pwnc** Mari I: Brenhines gyntaf Lloegr

**Eitem 28** Dr Anna Whitelock, hanesydd yn arbenigo mewn Hanes Modern Cynnar, yn ysgrifennu yn yr erthygl *'Mary Tudor – England's First Queen'* yn BBC History Magazine (Rhagfyr 2014)

Newidiodd esgyniad Mari y rheolau. ... Roedd Mari yn fwy nag abl ar gyfer y dasg. Roedd penderfyniadau dros fanylion grym brenhines yn gynseiliau ar gyfer y dyfodol. Roedd Deddf 1554 dros Rym Brenhinol yn nodi bod breninesau yn dal grym 'mor llawn ag absoliwt' â'u rhagflaenwyr gwrywaidd, gan sefydlu awdurdod di-ryw y Goron. Ailstrwythurodd Mari yr economi ac ad-drefnodd y fyddin, ailadeiladodd y llynges a llwyddodd i reoli ei senedd. Drwy sicrhau'r orsedd, sicrhaodd Mari hefyd fod y Goron yn parhau ar hyd llinell gyfreithlon llinach y Tuduriaid.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Ethnigrwydd
**Pwnc** Profiadau pobl mewn grwpiau ethnig leiafrifol yng Nghymru a Lloegr

**Eitem 29** Manylyn o'r *MS Westminster Tournament Roll 1511.* Mae'n portreadu twrnamaint mawreddog a drefnwyd i ddathlu genedigaeth Harri Dug Cernyw, mab Harri VIII a Katherine o Aragon. Gellir gweld John Blanke, trwmpedwr Du, yn y ddelwedd.



**Thema** Ethnigrwydd
**Pwnc** Profiadau pobl mewn grwpiau ethnig leiafrifol yng Nghymru a Lloegr

**Eitem 30** Dr Miranda Kaufman, hanesydd yn arbenigo mewn Hanes Prydeinig Du, yn ysgrifennu yn yr erthygl '*Yes, there were black Tudors – and they lived fascinating lives'* yn y papur newydd *The Telegraph* (2021)

Cafodd trwmpedwr llys anrheg priodas gan Harri VIII, y gwehydd sidan o Southwark a hwyliodd o amgylch y byd gyda Syr Francis Drake. Roeddent yn bobl weithiol cyffredin yn bennaf a oedd wedi dod i Loegr o Affrica, Ewrop a'r Caribî Sbaenaidd. Daethant gyda herwlongwyr, masnachwyr, aristocratiaid a breninesau, roeddent yn byw ac yn gweithio gyda phobl wyn, yn cael cyflogau a chawsant eu derbyn i gymdeithas Gristnogol drwy fedydd, priodas a chladdedigaeth. Roeddent yn lleiafrif; gwyddom am tua 200 o Affricanwyr a oedd yn byw yma yng nghyfnod y Tuduriaid, poblogaeth a dyfodd o ddwy filiwn i bedair miliwn yn ystod y ganrif – ond yr hyn sy'n hynod yw nad oeddent yn gaethweision.

Er bod Affricanwyr wedi cael eu caethiwo yn Sbaen, Portiwgal, yr Eidal ac yn yr Americas ar yr adeg hon, nid oedd y Tuduriaid yn masnachu mewn Affricanwyr am y rhan fwyaf o'r cyfnod ac eithrio John Hawkins, a Drake i raddau llai. Nid oedd hyn oherwydd ystyriaethau moesol, ond yn hytrach am nad oedd cytrefi Lloegr wedi cael eu sefydlu eto, nid oedd galw i fasnachwyr Lloegr ei gyflawni.

Er bod y Tuduriaid yn senoffobaidd yn sicr, ac yn gwahaniaethu yn erbyn Iddewon, Mwslimiaid a Chatholigion [yn ddiweddarach], nid oedd gwahaniaethu rhyngbersonol yn seiliedig ar liw croen yn rym dominyddol. Yn Lloegr y Tuduriaid, roedd pobl yn fwy tebygol o gael eu barnu yn seiliedig ar eu dosbarth, eu statws crefyddol neu eu rhywedd yn hytrach na lliw eu croen. Roedd Affricanwyr yn cael eu trin yn gyfartal yn llygaid Duw gan Eglwys Loegr; roeddent yn cael tystio mewn llys, bod yn berchen ar eiddo, priodi a chael cyflogau, yr holl ryddidau sifil a fyddai'n cael eu tynnu oddi arnynt yn y cytrefi Prydeinig yn y ganrif nesaf. Er bod y portreadau o gymeriadau Du mewn dramâu fel *Othello* Shakespeare yn dechrau awgrymu rhai o'r stereoteipiau hiliol negyddol a fyddai'n dod i'r amlwg yn ddiweddarach, nid yw'n ymddangos bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu ym mhrofiad bywyd unigolion Affricanaidd ar y pryd.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Ethnigrwydd
**Pwnc** Profiadau pobl mewn grwpiau ethnig leiafrifol yng Nghymru a Lloegr

**Eitem 31** Trawsgrifiad o'r rhestr o nwyddau a oedd yn eiddo i Cattelena o Almondsbury (1625). Plwyf y tu allan i Fryste yw Almondbury, ger Afon Hafren. Ni chaiff ei nodi yn y ddogfen, ond gwyddom fod y fuwch, a oedd yn cynhyrchu llaeth a menyn ac a oedd yn golygu bod Cattalena yn hunangynhaliol, wedi'i phrisio yn 3 punt a 10 swllt.

Almondsbury, 27 Mai 1625
Rhestr eiddo wirioneddol o holl nwyddau a meddiannau menyw Ddu sengl o'r enw Cattelena a fu farw yn Almondsbury yn swydd Gaerloyw, ac yn esgobaeth Bryste, a arfarnwyd gan Thomas Cottwell, Maurice Pearri a Thomas Hainnes:
I ddechrau, un fuwch, gwerth -
I ddechrau, un gwely, un gobennydd, un glustog, un pâr o flancedi, un cynfas, un cwilt - 17 swllt
I ddechrau, pedwar pot bach, un canhwyllbren piwter, un botel dun, un dwsin o lwyau - 17 swllt
I ddechrau, tair dysgl bridd, dau ddwsin o drenswyr, gwerth -
I ddechrau, un lliain bwrdd, gwerth -
I ddechrau, ei holl wisgoedd - 18 swllt a 2 geiniog
I ddechrau, un coffr a dau flwch bach - 4 ceiniog
Cyfanswm - 6 phunt, 9 swllt, 6 cheiniog

**Thema** Ethnigrwydd
**Pwnc** Profiadau pobl mewn grwpiau ethnig leiafrifol yng Nghymru a Lloegr

**Eitem 32** Awdur dienw yn rhoi cyd-destun i fywyd a chyfnod William Shakespeare yn yr erthygl *'Jews in Shakespeare's England'* ar wefan SparkNotes (2020)

Ni fyddai llawer o bobl yn Lloegr Shakespeare erioed wedi cyfarfod Iddew mewn gair a gweithred. Roedd poblogaeth Iddewig y deyrnas wedi'i halltudio yn 1290, fwy na dau gan mlynedd cyn genedigaeth Shakespeare, ac ni fyddai Iddewon mewn gair a gweithred yn cael eu gadael i mewn i'r wlad nes ar ôl marwolaeth Shakespeare yn 1660. Er i'r Iddewon gael eu halltudio yn yr Oesoedd Canol, llwyddodd grŵp bach o Iddewon Portiwgal, a oedd yn cynnwys cyn lleied â chant o bobl, i oroesi yn Llundain drwy fyw bywydau tawel, a llwyddodd y rhan fwyaf i osgoi trafferth â'r awdurdodau. Roedd Llundain Oes Elisabeth hefyd yn gartref i nifer o bobl a oedd wedi newid o Iddewiaeth i Gristnogaeth. Fodd bynnag, er gwaethaf y newid hwn, roedd y bobl Iddewig hyn yn dal i wynebu rhagfarn wrth-Semitig.

Roedd rhagfarn wrth-Semitig wedi'i wreiddio'n ddwfn yn Lloegr. ... Yn yr Oesoedd Canol roedd llawer o Gristnogion yn credu bod Iddewon yn lladd plant Cristnogol fel rhan o'u harferion crefyddol, a pharhaodd y sïon hyn yn ystod bywyd Shakespeare. Efallai bod y rhagfarn ehangaf am Iddewon a oroesodd yng nghyfnod Shakespeare yn ymwneud ag usuriaeth, yr arfer o godi llog am fenthyca arian. Mewn sawl rhan o Ewrop, roedd Cristnogion yn cael eu gwahardd rhag casglu llog. Er nad oeddent wedi'u gwahardd yn gyfreithiol rhag gwneud hynny, tybiwyd bod Iddewon a oedd yn codi llog ar fenthyciadau yn farus ac yn gellweirus. Aeth Shakespeare i'r afael â'r rhagfarn hon yn *The Merchant of Venice.* Mae sawl un o'r farn bod portread Shakespeare o'r benthyciwr arian Iddewig Shylock yn wrth-Semitig.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Diwylliant
**Pwnc** Adloniant y Tuduriaid

**Eitem 33** Chris Trueman, athro hanes, yn ysgrifennu *'Tudor Sports and Pastimes'* ar ei wefan addysgol *The History Learning Site* (diweddarwyd yn 2015)

Yn Lloegr y Tuduriaid, roedd y llywodraeth yn rheoli chwaraeon yn llym. Prin oedd y cyfleoedd a gâi dinasyddion cyffredin i gymryd rhan mewn chwaraeon am fod y llywodraeth yn ystyried ei bod yn bwysicach iddynt fod yn ddigon ffit i weithio. Roedd y rhan fwyaf o'u horiau gweithio yn cynnwys gwaith o ryw fath felly roedd amser ar gyfer chwaraeon yn brin. Ym mlynyddoedd cynnar teyrnasiad Harri VIII, pasiwyd cyfraith yn 1512 a oedd yn gwahardd y person cyffredin rhag cymryd rhan mewn amrywiaeth o gemau fel tennis cwrt, cardiau, dis, bowls a sgitls. Dim ond adeg y Nadolig y byddai'r rheolau'n cael eu llacio rywfaint er mwyn dathlu gŵyl grefyddol.

Roedd pêl-droed wedi bod yn gamp boblogaidd ers sawl blwyddyn. Roedd yn wahanol iawn yn Lloegr y Tuduriaid o gymharu â'r gêm heddiw. Nid oedd cyfyngiad ar nifer y bobl ar bob ochr ac roedd pyst y goliau wedi'u gosod tua milltir ar wahân. Roedd y rheolau hefyd yn galluogi'r sawl a oedd yn chwarae i afael yn y bêl a'i thaflu ynghyd â'i chicio i rwyd y gwrthwynebwyr. Roedd y gemau hyn yn galed iawn, a byddai llawer o ddynion ifanc yn cael eu brifo wrth ei chwarae. Dynion ifanc a heini oedd y rhain y byddai'r fyddin wedi bod eu hangen. Yn 1540, hefyd yn nheyrnasiad Harri VIII, cafodd pêl-droed ei wahardd.

Roedd yr ymdrech i reoli bywydau'r dosbarth gweithiol mor fawr nes i wrthfwrdd gael ei wahardd hyd yn oed yn 1542 - gêm a elwir yn gwthio dimeiau erbyn hyn. Y farn gyffredinol oedd y dylai'r dosbarth gweithiol dreulio eu hamser gartref neu yn y gwaith ac y gallai unrhyw fath o gemau fynd allan o reolaeth ac y gallai'r awdurdodau golli rheolaeth ar y boblogaeth yr oeddent yn ei rheoli dim ond oherwydd gêm. Cafodd dis a chardiau ac ati eu gwahardd am y gallent annog hapchwarae, a allai, yn ei dro, arwain at golli rheolaeth a chodi trafferthion mewn cymuned.

**Thema** Diwylliant
**Pwnc** Adloniant y Tuduriaid

**Eitem 34** Heather Teysko, podlediwr ar Hanes yr Unol Daleithiau yn ysgrifennu yn yr erthygl *'Tudor Minute July 14, 1575: Elizabeth I holidays at Kenilworth'* ar ei gwefan Englandcast (2022)

Yn 1575, roedd Robert Dudley [Iarll Caerlŷr] yn dal i obeithio cael priodi Elisabeth, a threfnodd ŵyl fawreddog a barodd dair wythnos fel ei ymgais olaf i greu argraff dda arni. Treuliodd ei holl amser yn cymryd rhan yn ei hoff ddiddordebau, ac roedd hyn wedi'i drefnu'n helaeth. Roedd dawnsio, marchogaeth a hela; ynghyd â gwyliau mwy cyhoeddus fel pasiantau. Roedd y gost yn enfawr - ymhell dros £1000 y dydd ac ni welwyd gŵyl mor fawr erioed o'r blaen yn Lloegr. Roedd un lle'r oedd dolffin mecanyddol yn codi o'r dŵr ac yn ei ganol roedd cerddorion a chanwr. Goleuwyd yr awyr gan arddangosfa tân gwyllt un noson, cafodd gerddi newydd gyda ffynnon eu hadeiladu, ac roedd Elisabeth yn aros yn y fflatiau brenhinol newydd a adeiladwyd gan Iarll Caerlŷr.

Er nad oedd Dudley yn llwyddiannus yn ei ymgais i ennill llaw Elisabeth, roedd yr ŵyl a drefnwyd ganddo yn destun sgwrs am beth amser yn Oes y Tuduriaid.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Diwylliant
**Pwnc** Adloniant y Tuduriaid

**Eitem 35** Arglwydd Faer a Henaduriaid Dinas Llundain yn cwyno am y theatrau mewn llythyr a anfonwyd at y Cyfrin Gyngor (28 Gorffennaf 1597)

Maent yn fannau i grwydriaid, dalwyr cwningod a phersonau segur a pheryglus eraill gwrdd â'i gilydd er mawr anfodlonrwydd i'r Goruchaf Dduw ac er niwed a phoendod i bobl ei Mawrhydi. Maent yn cynnal segurdod mewn pobl heb waith ac yn denu prentisiaid a gweision eraill o'u gwaith arferol a phob math o bobl o'u pregethau ac arferion Cristnogol eraill. Mewn cyfnod o salwch mae llawer o bobl yn diddanu eu hunain drwy fynd i wrando ar ddrama, ac felly'n heintio eraill.

**Thema** Diwylliant
**Pwnc** Adloniant y Tuduriaid

**Eitem 36** Cwpl yn dawnsio la volta mewn dawns yn Llys Harri III (1551–1589) (tua 1580). Mewn erthygl ar gyfer BBC Teach, caiff y ddawns ei disgrifio fel a ganlyn: 'Roedd La volta – Eidaleg am y tro – yn wahanol iawn i'r dawnsfeydd araf ac urddasol a welwyd yn y llys fel arfer. Yn y ddawns, mae'r dyn yn gwthio'r fenyw ymlaen gyda'i glun, gydag un llaw yn gafael ynddi gerfydd ei chanol a'r llall o dan ei bodis corsetog wrth iddi lamu i'r awyr. Roedd gwrthwynebwyr o'r farn bod y ddawns gyflym ac egnïol hon yn anweddus a hyd yn oed yn beryglus i fenywod, gan ofni y gallai achosi cam-esgor.'



© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cydnabyddiaeth:

| | |
|---|---|
| 1. | Tywyslyfr i ymwelwyr *Newport Medievel Ship. A Guide to the Discovery and Preservation of a Fifteenth-Century Merchant Ship* (2017) |
| 2. | Delwedd o: https://www.geograph.org.uk/photo/6129295 [Cyrchwyd 28.10.24] Disgrifiad o wefan Cadw: https://cadw.llyw.cymru/ymweld/lleoedd-i-ymweld/llys-a-chastell-tretwr. [Cyrchwyd 28.10.24] |
| 3. | O *Mapping the Medieval Countryside:* *https://inquisitionspostmortem.ac.uk/contexts/the-boarstall-map/* [Cyrchwyd: 3.11.2024] |
| 4. | O wefan Spartacus Educational: https://spartacus-educational.com/TUDagriculture.htm [Cyrchwyd 2.11.2024] |
| 5. | O https://schoolshistory.org.uk/topics/lessons-and-activities/personality-of-king-henry-vi-a-level-history-lesson/ [Cyrchwyd 28.10.24] |
| 6. | O wefan â'r teitl, *'The Wars of The Roses'*https://thewarsoftheroses.co.uk/surrender-of-harlech-castle-end-of-britains-longest-siege/ [Cyrchwyd 28.10.24] |
| 7. | O https://richardiii.net/richard-iii-his-world/reputation/crimes-alleged-by-shakespeare/#:~:text=Despite%20the%20widespread%20belief%20in,anyone%2C%20including%20Richard%20III).[Cyrchwyd 31.10.2024] |
| 8. | O Lyfrgell Cangen Americanaidd Cymdeithas Richard III. Cyrchwyd ar-lein yn: https://r3.org/wp-content/uploads/2021/12/The-Ballad-of-Bosworth-Field-Introduction_-Michael-Bennett.pdf [Cyrchwyd 28.10.24] |
| 9. | O lawysgrifau'r Llyfrgell Brydeinig wedi'u digideiddio: https://blogs.bl.uk/digitisedmanuscripts/2020/07/defender-of-the-faith.html [Cyrchwyd 28.10.24] |
| 10. | Weir, A. 2020. *The Lady in the Tower: The Fall of Anne Boleyn.* Toronto: Penguin Random House Canada, Ch. 1 Excerpt from The Lady in the Tower \| Penguin Random House Canada |
| 11. | O'r Ddeddf Goruchafiaeth, Deddf Gyhoeddus, 26 Harri VIII, c. 1 – archifau Senedd y DU: https://www.parliament.uk. [Cyrchwyd 28.10.24] Cyrchwyd y cyfieithiad o: https://www.britainexpress.com/History/tudor/supremacy-henry-text.htm [Cyrchwyd 28.10.24] |
| 12. (a) | Cyrchwyd o: https://bookpalace.com/acatalog/info_PettsMonasteriesLL.html [3.11.2024] |
| 12. (b) | A Man for All Seasons (1966) - Rich's Perjury Scene (8/10) \| Movieclips - YouTube [Cyrchwyd 15.11.2024] |
| 13. | https://www.bmimages.com/preview.asp?image=01613225772 [Accessed 1.11.2024] |
| 14. (a) | https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Rawlins_White_memorial_plaque.jpg [Cyrchwyd 28.10.2024] |
| 14. (b) | Elizabeth - Three Protestant Martyrs - YouTube [Cyrchwyd 14.11.2024] |
| 15. | https://www.johndclare.net/KS3/2-3-4.htm [Cyrchwyd 1.11.2024] |
| 16. | https://www.historyextra.com/period/elizabethan/priest-holes/ [Cyrchwyd 1.11.2024] |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| 17. | https://archives.parliament.uk/collections/getrecord/GB61_HL_PO_PU_1_1535_27H8n24 [Cyrchwyd 24.10.2024: 31.10.2024] |
| 18. | https://exploringcelticciv.web.unc.edu/laws-in-wales-acts-1535-42/ [Cyrchwyd: 31.10.2024] |
| 19 | O Welsh had more legal status after Acts of Union than thought, lost National Library treasure trove reveals. [Cyrchwyd 10.11.2024] |
| 20. | O Williams, G. 1997. *Wales and the Reformation.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, t.58 |
| 21. | Aylett, JF, 1984. *In Search of History 1485–1714*. Llundain: Hodder a Stoughton, t.30 |
| 22. | Turvey, R. 1995. *Wales and Britain in the Early Modern World 1500–1760.* Llundain: Hodder a Stoughton, t.30 |
| 23. | O [TCP] An acte for punishment of rogues, vagabonds and sturdie beggers [Cyrchwyd: 10.11.2024] |
| 24. | https://oedeboyz.com/2019/12/12/elizabethan-poor-law-1601-the-first-national-welfare-system/ [Cyrchwyd 15.11.2024] |
| 25. | O British History ar-lein: https://www.british-history.ac.uk/camden-record-soc/vol42/pp34-50 [Cyrchwyd: 1.11.2024] |
| 26. | O https://www.hrp.org.uk/tower-of-london/history-and-stories/lady-jane-grey/#gs.hinl7v [Cyrchwyd 31.10.2024] |
| 27. | https://www.rmg.co.uk [Cyrchwyd 31.10.2024] |
| 28. | https://www.historyextra.com/period/tudor/mary-i-a-highly-impressive-queen-cut-off-in-her-prime/ [Cyrchwyd 1.11.2024] |
| 29. | O: John Blanke and the Westminster Tournament Roll - National Portrait Gallery [Cyrchwyd 31.10.2024] |
| 30. | O Yes, there were black Tudors – and they lived fascinating lives [Cyrchwyd 1.11.2024] |
| 31. | O Archifau Prydain: Rhestri eiddo<br>Delwedd o: Cattelena of Almondsbury \| Black History, Tudor \| History Worksheets<br>[Cyrchwyd 31.10.2024] |
| 32. | Addaswyd o www.sparknotes.com/shakespeare/life-and-times/social-context/jews-in-shakespeares-england/ [Cyrchwyd 31.10.2024] |
| 33. | Addaswyd o 'Tudor Sports and Pastimes' gan C N Trueman ar historylearningsite.co.uk. The History Learning Site, 17 Mawrth 2015. Tudor Sports and Pastimes - History Learning Site [Cyrchwyd 24 November 2024] |
| 34. | O: https://www.englandcast.com/2022/07/elizabeth-i-holidays-kenilworth/ [Cyrchwyd 1.11.2024] |
| 35. | O, Aylett, JF. 1984. *In Search of History 1485–1714.* Llundain: Hodder a Stoughton, t.43. |
| 36. | O https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Robert_Dudley_Elizabeth_Dancing.jpg [Cyrchwyd 1.11.2024] |


© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Hawlfraint

Gwnaed pob ymdrech i gysylltu â pherchnogion hawlfraint pan ystyriwyd bod darnau y tu hwnt i gwmpas bargeinio teg, ac ni chafwyd ymateb gan rai ohonynt. Os bydd yn peri unrhyw bryder i'r cyhoeddwr neu unrhyw barti arall â diddordeb, cysylltwch â ni a byddwn yn gweithredu'n briodol.Hyd eithaf ein gwybodaeth, defnyddir pob eitem arall yn unol â'r Polisi Defnydd Teg; os oes unrhyw hegporiadau neu wallau, cysylltwch â ni fel bod modd gwneud y cywiriadau anghenrheidiol. datblygucymwysterau@cbac.co.uk.

© WJEC CBAC Ltd. 2025